# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>

**Cofnodion rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 2ail o Fedi, 2021 drwy 'Zoom'.**
Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

<u>**Yn bresennol**</u> drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Tegid Jones (Cadeirydd), Aled Evans, Margaret Griffith, Aled Davies, William Ifor Hughes, Gareth O. Davies, Trefor Wyn Jones, Sion Aled Jones, Darren Morley, Thomas Prys Jones, Naomi Jones, Sian Angharad Parry a'r Clerc.

1. <u>**Ymddiheuriadau**</u>: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Angela Williams, Ceri Jones, ac Anwen Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 1af o Orffennaf 2021. (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 02.09.2021).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Gorffenaf ac Awst 2021 – (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 02.09.2021).

4. <u>**Datgan buddiant personol**</u>, (roedd y Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod) - Cynghorydd William Ifor Hughes, yn datgan buddiant personol o dan rhif 25, sef cais cynllunio rhif<u>**: C21/0804/41/LL**</u> – <u>**Cae Newydd, Pencaenewydd LL53 6RD**</u> – storfa biswail arfaethedig.

5. <u>**Materion gan Cyngor Gwynedd**</u>

a) <u>Rhybudd - Cau'r Ffordd Dosbarth III o Groesffordd Tŷ Newydd, Y Ffor</u> ar yr 20fed o Awst, 2021- gwaith adnewyddu polyn diffygiol ar ran BT Openreach. <u>**Derbyn.**</u>

b) <u>Rhybudd - Cau'r Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Bryn Afon, Pencaenewydd</u> ar yr 17eg o Awst, 2021 – gwaith adnewyddu polion diffygiol ar ran BT Openreach. <u>**Derbyn.**</u>

c) <u>Rhybudd – Cau'r Ffordd Ddosbarth III gyferbyn â Phenybryn, Llangybi</u> ar 18ed o Awst 2021, - gwaith adnewyddu polyn diffygiol ar ran BT Openreach. <u>**Derbyn.**</u>

ch) <u>Rhybudd - Cau ffyrdd naill ochr i Ffordd y B4354, Llanarmon</u> ar y 27ain o Fedi, 2021 am ddim mwy na 4-5 diwrnod– gwaith gan BT Openreach i atgyweirio gwasanaeth diffygiol i gwsmer cyfagos. <u>**Derbyn.**</u>

6. <u>**Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd - Ardal Ni 2035**</u> – ebost 11.08.21 gan Swyddog Cefnogi Cymundedau (Ardal Dwyfor), -angen cynnig dyddiad i gyfarfod yn rhithiol hefo hi ym mis Medi neu Hydref i allu cofnodi ymateb y Cyngor Cymuned. Wedi adnabod 13 ardal yng Ngwynedd ac mae dalgylch Cyngor Llanystumdwy yn rhan o ardal Pwllheli. Bydd yn cynorthwyo cymunedau i adnabod a gwireddu'r hyn sydd yn bwysig i drigolion, a'r materion hynny fydd angen sylw yn y 10-15 mlynedd nesaf i wella'r economi, amgylchedd, materion cymdeithasol a diwylliannol. <u>**Penderfynwyd cynnal cyfarfod rhithiol am 7:30 y.h. ar nos Iau, 07.10.2021, o flaen y prif gyfarfod i drafod y fframwaith.**</u>

7. <u>**Cynhadledd Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian**</u> – drwy Zoom am 10:30 ar 01.10.2021- os oedd gan unrhywun gwestiwn i'w ofyn, roedd angen cwblhau y daflen erbyn

06.09.2021 er mwyn rhoi rhybudd i'r deiliaid a fyddai yn y cyfarfod. Clerc eisioes wedi anfon y manylion at bawb. **Derbyn er gwybodaeth.**

8. **Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru 22.09.2021** – drwy Zoom a bydd angen cwblhau ffurflen archebu os bydd gan unrhywun ddiddordeb, a'r gost yw £40.00 y person. **Neb am fynychu.**

9. **Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunan arlwyo** – gan Llywodraeth Cymru. Maent angen sylwadau cyn 17.11.2021. **Penderfynwyd y byddai'n bosib i unigolion ymateb yn unigol ei hunain.**

10. **Gweminar Rhad ac am Ddim Un Llais Cymru a Chadwch Gymru'n Daclus**
2pm - 3.30pm Dydd Mercher 15 Medi 2021
"Rhaglen Caru Cymru Cadwch Gymru'n Daclus – sut all Cynghorau Cymuned a Thref gymryd rhan…" a bydd angen cofrestru. **Y Clerc am gofrestru i wrando ar y webinar.**

11. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

Fe roddwyd caniatâd i'r Clerc roi sylwadau ar geisiadau cynllunio a ddaw yn ystod misoedd Gorffennaf ag Awst 2021 ar ol derbyn sylwadau gan y Cynghorwyr i gyd, ac ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is-gadeirydd.

**a) Rhif Cais: C19/1215/40/EIA – Hafan y Mor, Pwllheli, LL53 6HX** – prif gynllun arfaethedig yn cynnwys dymchwel 56 o fflatiau, creu lleiniau newydd ar gyfer lleoli carafanau statig, llety tím newydd, caffi traeth newydd gan gynnwys teras a man chwarae, amddiffynfeydd arfordirol newydd, adlinio ychydig ar Lwybr Arfordir Cymru gyfan yn ogystal a thirlunio cysylltiedig, gwaith draenio, mynediad ac isadeiledd.
**Penderfyniad - gwrthod ar sail y rhesymau isod:**

- Dywedir y bydd 56 o fflatiau yn cael eu dymchwel ond nid yw'n amlwg faint yn union o garafanau ddaw yn eu lle. Sut fydd hyn yn effeithio ar y safleoedd presennol yr ardal?
- Er bod sôn am symud rhywfaint ar lwybr yr arfordir nid yw hyn yn glir ar y map. Mae pryder ynglŷn â symud y llwybr gan y byddai yn agor y drws i lu o geisiadau tebyg, yr un mor haeddiannol. Ni ddylai unrhyw ddatblygiad amharu ar hawl y cyhoedd i droedio i, ac ar, Benrhyn Penychain.
- Yn anorfod bydd y datblygiad yn cynyddu'r pwysau y bydd twristiaeth yn ei roi ar yr ardal. Honir y bydd 45 swydd newydd yn y caffi er engrhaifft. Mae'n anodd iawn cael staff yn y maes yma fel ac y mae. O ble ddaw'r gweithlu ychwanegol yma? Ble mae hyn yn gadael cynllun y Cyngor hefo twristiaeth gynaliadwy?

b) **Rhif cais Cynllunio:C21/0691/41/LL** - Fferm Chwilog Fawr, Chwilog – estyniad i sied amaethyddol - **cefnogi**.

c) **Rhif Cais: C20/0149/41/LL - Gwynfryn Plas Ffordd Rhoslan,Llanystumdwy** – trosi ac addasu adfail yn 25 uned byw. **Gwrthod ar sail y rhesymau isod:-**
**1**. Nid yw yn cydymffurfio hefo Polisi Tai 7 y Cynllun Datblygu (t 140) ar gyfer Trosi adeiladau traddodiadol yng nghefn gwlad agored i ddefnydd preswyl. Mae'r datblygiad i fod i gydymffurfio â'r 5 pwynt yn y polisi yma. Pwynt 1 y polisi ydi "Bod tystiolaeth nad yw defnydd cyflogaeth o'r adeilad yn hyfyw". Nid oes tystiolaeth o hyn yn y dogfennau sydd wedi cael ei dangos hefo'r cais.

**2**."Bod y datblygiad yn darparu uned fforddiadwy ar gyfer angen lleol". Nid oes sôn am unedau fforddiadwy nag unrhyw arolwg a wnaed o'r angen am unedau o'r fath.

**3.** “Bod y strwythur yn un cadarn”. Nid oes sôn fod arolwg strwythurol o’r adeilad wedi ei wneud yn barod ac mae pawb yn ymwybodol fod na ddifrod mawr wedi ei wneud i’r lle ar ôl y tân. Ni ddylid cymryd yn ganiataol fod yr un wal yn gadarn.
**4. 2** Polisi Tai 9 Adran B (t143)
Rhif 9 “Bod y safle mewn lleoliad cynaliadwy – sef yn agos i ganolfan gwasanaethol neu ar lwybr cludiant cyhoeddus”. Nid yw yn cydymffurfio hefo’r naill na’r llall.
**5. 3** Polisi Strategol PS 18 (t157), Pwynt 1. “Trothwy tai fforddiadwy” Ar gyfer trosi adeilad traddodiadol yng nghefn gwlad y trothwy ydi 100%. Nid oes dim sôn fod yr un o’r fflatiau yma am fod yn fforddiadwy, heb sôn am bob un ohonyn nhw.
**6.** Ar y ffurflen gais, pwynt 21 Cyflogaeth, mae nhw’n sôn fod 5 yn cael eu cyflogi yno rŵan (“existing employees”) a 3 rhan amser. Nid ydym yn ymwybodol fod yna neb yn gweithio yno ar hyn o bryd. Os mai fflatiau preswyl ydi’r bwriad, beth fyddai gwaith y bobol yma?

Yn ogystal a hyn, yn wahanol i’r cais a dderbyniwyd ganddynt fis Rhagfyr 2020, mae asesiad iaith wedi cael ei wneud y tro yma.
Dyma ein sylwadau ar yr asesiad iaith:

**1**. Byddem wedi meddwl y byddai unrhyw gwmni fyddai'n gwneud asesiad iaith wedi cael enw'r safle yn gywir. Mae'n *Gwyfryn* nifer fawr o weithiau drwy'r ddogfen. Hefyd ar dudalen 10 pwynt 5.5 mae sôn am *Aberech a Llanystmdwy*, sydd yn dangos camsillafu. Mae'n gwneud i rywun feddwl nad oedd gan y cwmni wnaeth yr adroddiad fawr o syniad am yr iaith Gymraeg.
**2.** Tudalen 28 Asesiad iaith - y Matrix
a) Cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymuned - Mae'r fflatiau 1 a 2 lofft yn gyfle i bobl ifanc aros yn y gymuned. Y gwir amdani ydi fod y fflatiau yn mynd i fod yn rhy ddrud i fod y fforddiadwy, felly o ble daw y bobl ifanc cyfoethog yma i fyw ynddyn nhw. Pobl ifanc lleol?
b) Mae sôn eu bod y mynd i ganolbwyntio ar werthu yn lleol, ond fydd hi ddim yn bosib cadw at hynny.
c) Newid yn strwythur oed yr ardal. Fel y dywedwyd yn ateb a) mae'n anhebygol y byddai'r datblygiad yn denu pobl ifanc iddo. Y tebygrwydd ydi mai cynyddu'r nifer o bobl hŷn wnaiff y datblygiad gyda holl oblygiadau hynny.
ch) Newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Fel y dywedwyd yn ateb b) pobl o du allan yr ardal ddaw i'r datblygiad ac fe fydd hynny'n effeithio ar nifer siaradwyr Cymraeg yr ardal.
**3**. Tudalen 33 ‘Fydd y datblygiad yn cynyddu'r gofyn ar wasanaethau lleol’?
a) Gweler at 2 c) uchod
b) Yn y golofn sylwadau mae sôn am 25 uned, eto ar dudalen 8 pwynt 4.1 mae'n dweud mai 21 uned fydd yna. Pa rif ydi'r un iawn?
**4**. Tudalen 37 ‘Ffactorau economaidd’ . Gofynnir "Ydi'r datblygiad yn creu e.e. swyddi nad ydynt ar gael yn lleol?" Yn y Sylwadau dywedir "Ar wahân i'r adeiladu ni fydd y datblygiad yn creu swyddi newydd." Yn y dogfennau eraill mae sôn am 5 swydd llawn amser a 3 rhan amser. Pa ddogfen sy'n gywir? Hefyd gweler pwynt 7 yn yr ymateb cynt.
**Felly i grynhoi, nid yw’r datblygiad yn cydymffurfio hefo sawl un o Bolisïau Cyngor Gwynedd ac fe ddylid ei wrthod.**

**Trafodwyd y ceisiadau isod yn y cyfarfod.**

ch) **Rhif Cais: C21/0784/37/LL - Gwag Y Noe, Chwilog, Pwllheli** – sied amaethyddol. **Cefnogi.**

d) **Rhif Cais: C21/0770/41/LL - Gaerddu Mawr, Cricieth,–** creu pwll piswail tanddaearol o dan sied wartheg bresennol. **Cefnogi.**

dd) **Rhif Cais: C21/0714/41/LL - Fferm Hendy, Ynys, Cricieth**,- creu ystorfa piswail o dan lawr adeilad amaethyddol presennol ar fuarth y fferm. **Cefnogi.**

e) **Rhif Cais : C21/0718/41/LL - Tir gyferbyn Bron Eifion Lodge, Cricieth** – adeiladu ysgol newydd a gwaith cysylltiol yn cynnwys ardaloedd chwarae a dysgu allanol, parcio ar safle a mynedfa newydd i'r briffordd.
**Dim gwrthwynebiad, ond rhaid nodi fod pryderon am y bygythiad a ddaw yn ei sgíl i ysgolion gwledig gerllaw, a bydd posiblrwydd y bydd rhieni yn cysidro symud ei plant yno oherwydd yr adnoddau newydd a'r ddarpariaeth fodern fydd yno.**
**Mae hefyd bryderon am gerbyddau yn gyrry'n gyflym rhwng Llanystumdwy a Chricieth.**

f) **Rhif Cais : C21/0815/41/CT - Capel Moriah, Llanystumdwy** – gwaith tocio dwy goeden ywen. **Dim gwrthwynebiad.**

**Materion yn y gymuned**.
12. **Arwyddion dim ysbwriel drwy'r gymuned** – y Clerc wedi trafod y mater dros y ffon hefo Mr Alan Hughes, Warden Gorfodaeth Stryd, Cyngor Gwynedd. Dywedodd fod ganddo arwyddion gan Llywodraeth Cymru yn dweud 'Os ydi'r biniau'n llawn, ewch â'ch sbwriel adref", ond nad oedd ganddo arwyddion 'dim ysbwriel'. Awgrymodd efallai yn byddai'n well i'r Cyngor Cymuned gynhyrchu arwydd newydd ei hunain i'w gosod yn y safleoedd oedd o dan sylw. Dywedodd mai cwmni arwyddion o Benygroes yr oedd Cyngor Gwynedd yn ei defnyddio ran amlaf.
Dyma oedd y safleoedd a drafodwyd cynt, Pencaenewydd, Llangybi, Llanarmon, ger Ffatri Laeth, lon rhwng cyffordd Tyddyn Gwyn a chyffordd Ranch Llanystumdwy, Pont Bryn Beddau Rhoslan, a llecyn wrth lan yr afon ger Pont Maenllwyd.
Dywedodd hefyd ei fod yn anodd iawn rheoli'r broblem o sbwriel yn cael ei daflu drwy ffenestr cerbydau, a'i bod yn broblem drwy'r wlad. **Mae'r Clerc am gofrestru i fod ar webinar Un Llais Cymru i weld os oedd ganddynt syniadau ar sut i reoli'r broblem.**

13. **Llanystumdwy**
a) **Arwydd yn ymyl Lodge Talhenbont** – cais i gael arwydd i rybuddio traffig fod angen arafu cyn mynd i lawr yr allt am Ael y Bryn.
b) Nodwyd fod bylchau yn y wal ger y lon fawr ymhellach heibio Llwyn, Llanystumdwy draw am gyfeiriad Rhoslan, ac hefyd bod eiddew yn tyfu i'r lon ar y tro.
**Derbyniwyd ateb gan yr Adran Trafnidiaeth yn dweud ei bod am ymweld â'r safle pan yn yr ardal nesaf er mwyn cynnal asesiad llawn o'r sefyllfa. Byddant yn sicrhau y byddant yn anfon diweddariad maes o law. Derbyn a chadw golwg ar y sefyllfa.**

**c) Parcio gyferbyn tai Maen y Wern ac i fyny am Tý Newydd** – problem fod trigolion sydd yn byw yn y tai yn parcio ar y lon gul yn ei gwneud yn anodd i yrrwyr basio. **Gofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am gael llinnellau melyn ar hyd y lon o flaen y tai.**

**ch) Cerrig mân 'chippings' ar y palmant o Tyddyn Sianel hyd at Bont Fechan yn dilyn ail wynebu'r lon**. Maent yn peryglus o dan draed i blant/oedolion/ beiciau ac angen ei lanhau. – y Clerc eisioes wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd. **Derbyn.**

14. **Rhoslan/Ynys**
15. **Chwilog**
a) **Parcio yn Chwilog** – pryder oherwydd y cynnydd mewn tai yn y pentref, ac y bydd yn anodd parcio yno pan fydd pethau yn cael ei cynnal yn y capeli a'r neuadd. Y Clerc wedi anfon llythyr ac ebyst at Cyngor Gwynedd i holi os yw'n bosibl datrys y broblem, ac iddynt ystyried y posiblrwydd o ddefnyddio lle tu nol i'r rhes o dai ger y Madryn, ac efallai ddarn o'r cae ger Ael y Bryn, -dal i ddisgwyl ymateb. **Angen holi eto.**

b) **Garej Pandy** - wedi derbyn cwynion ynglŷn â'r sefyllfa cerbydau yn parcio yno ymhobman ar ochr y lon, oherwydd ei bod yn ei gwneud yn beryglus i bobl sydd yn ymweld, cerdded a gyrru heibio'r safle. Mae prysurdeb mawr yno ac mae'n beryglus ar lon mor brysur. Y Clerc yn disgwyl ateb. **Angen holi eto.**

c) **Arwydd mesur traffig yn fflachio 30 m.y.a.** – B4354 allan o Chwilog i gyfeiriad yr A497.
Y Cynghorydd Aled Evans wedi cael gwybod gan Mr Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd ar 09.07.2021, fod cynnydd yn y lefelau traffig yn ddiweddar, a'i fod yn awyddus gweld os oedd newid wedi bod. Dywedodd y byddai'n ei ddiweddaru fel daw gwybodaeth i law. Roedd hefyd yn disgwyl rhaglen o ran pryd y byddent gosod yr arwydd electroneg. **Disgwyl ateb.**

ch) **Llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen** -
Gwnaeth y Cynghorydd Aled Evans ymholiadau i weld beth oedd y diweddaraf am y cais i gael llwybr troed rhwng Chwilog ac Afonwen.
Derbyniodd ateb gan Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig fis Chwefror 2021 yn cadarnhau ei fod wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i greu "troedffordd rhwng Chwilog ag Afonwen". Dywedodd os byddent yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynllun yma, bydd modd edrych ar gynllun ehanach i wella diogelwch y gymuned. Cadarnhaodd hefyd gyda chyfyngiadau 'covid', a'r angen i swyddogion fod yn fwy hyblyg gyda'u dyletswyddau, yn anffodus nid oeddent wedi cael cyfle i edrych ar opsiynau ar gyfer ymgynghori gyda'r broblem.
Cadarnhaodd y byddai'n cael gwybod fis Ebrill, os oeddent wedi bod yn llwyddianus ac yna byddent yn cychwyn trafodaethau mewn perthynas a materion diogelwch ar y rhan yma o'r ffordd.
Mae'r Cynghorydd Aled Evans wedi gofyn am ddiweddariad eto fis Gorffennaf 2021, ond nid yw wedi derbyn ateb. **Disgwyl ateb.**

16. **Pencaenewydd/Sardis**
**a) Safle pasio, 'lay by'-** y Clerc wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd am fwy o safleoedd pasio i gerbydau rhwng Sardis i Pensarn, Mynachdy Bach ac i'r tro am Llanaelhaearn. **Y Clerc wedi derbyn yr ymateb yma ar yr 02.07.2021 gan yr Adran Priffyrdd.**
*"Ymddiheuraf am yr oedi mewn ymateb ond fe ddaw swyddog mewn cyswllt gyda chi cyn gynted a bo'r gwaith arwisgo wedi cael ei gwblhau."* **Cadw golwg ar y sefyllfa.**

b) **Mainc er cof am Eva a John James** –cais gan Ms Eve Grant am holi am y posiblrwydd iddynt gael prynu a gosod mainc bren ym Mhencaenewydd. Maent am holi'r pentrefwyr gyntaf i weld beth oedd ei barn, a lle i'w gosod. Gofynwyd i'r Clerc ofyn wrthynt gysylltu hefo Mrs Sarah Roberts, ar ran y pentrefwyr.

17. **Llangybi**
**Cae chwarae –** yr Is-gadeirydd wedi cadarnhau fod y cylchdro wedi cael ei drwsio, ac am wneud ymholiadau hefo cael glyd i osod y matiau sydd wedi codi. **Disgwyl ateb.**

18. **Enwau lleol –** Y llechi wedi cael ei gwneud erbyn hyn, ac mae'r Clerc wedi ei casglu gan gwmni Llechi'r Ddraig. Mae Osian Richards, Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi cadarnhau ei bod nhw am drefnu i'w gosod o fis Medi ymlaen, oherwydd prysurdeb yr haf.
**Diolchwyd i bawb a fu'n gysylltiedig am drefnu'r gwaith.**

19. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Gwnaeth y Clerc anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 02.09.2021. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd

eisioes wedi ei wneud. Derbyniwyd y ail daliad praesept o £9000.00 ar 27.08.2021. **Derbyniwyd y wybodaeth.**

20. **Archwilio allannol** – y Clerc wedi anfon y dogfennau i gael ei archwilio at Archwilio Cymru. Hefyd mae rhybudd hysbysiad archwilio wedi cael ei osod ar bob hysbysfwrdd ac ar wefan y Cyngor, yn pennu'r dyddiad ar gyfer hawliau etholwyr i ofyn cwestiynau a gwneud gwrthwynebiadau yn ystod yr archwiliad. **Derbyn.**

21. **Rhestr datganiad blynyddol o gydnabyddiaeth a wnaed i gynghorwyr** – bydd angen i'r Clerc ei anfon at banel annibynol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol erbyn 30.09.2021. Roedd y Clerc wedi anfon y ffurflen 'Lwfans Cynghorwyr' at bawb o flaen y cyfarfod.

22. **Cais ariannol - 'Diffibiwleiddiwr' Neuadd Llanystumdwy** – casglwyd arian 5 mlynedd yn ol gan aelodau o'r gymuned i brynu a'i osod tu allan i'r neuadd. Mae Swyddog o'r Bwrdd Ambiwlans wedi bod yn edrych arno 26.07.2021, gan ddweud fod y diffibiwleiddiwr a'r cabinet wedi torri ac angen ei adnewyddu. Dywedwyd y byddai'n costio tua £1,500.00 i gael un newydd. **Cytunwyd i dalu £1000.00 o gyfrif Budd-Cymunedol y Cyngor, drwy BACS i gyfrif banc Neuadd Llanystumdwy tuag y gost o'i adnewyddu.**

23. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 02.09.2021:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br><br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd (007950B0069580B) | Toiledau Llanystumdwy | **2000.00** | | **2000.00** | **2000.00** |
| Mr Clifford Hughes (89) | Barbio ochr y bont a fyny at y Bedd, Maen y Wern Llanystumdwy | **95.00** | | **95.00** | **95.00** |

Cyflog mis Awst 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS :-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Awst 2021<br>35 awr y mis x £11.05 = £386.75 | 386.75 -<br>Llai treth £77.40<br>= £309.35 | **309.35** | **309.35** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Awst 2021 | 387.00 x 20% = £77.40 | **77.40** | **77.40** |
| Costau'r Clerc<br>Awst 2021 | £16.66 | **16.66** | **16.66** |

Eitemau a gyrhaeddodd rhy hwyr i'w cynnwys ar y rhaglen, a drwy ganiatâd y Cadeirydd a drafodwyd ar y noson.

**24. Rhif cais: C21/0794/41/DT – Wynchgate, Llanystumdwy LL52 0SP** – newid drysau ffrengig am ffenestr gyffredin ar yr edrychiad blaen, tynnu simdde, newid to'r lolfa wydr o un 'polycarbonate' i un llechi a gosod gwydr yn y talcen ynghyd a gosod nen oleuadau.
**Dim gwrthwynebiad.**

**25. Rhif cais: C21/0804/41/LL** – **Cae Newydd, Pencaenewydd LL53 6RD** – storfa biswail arfaethedig.
**Cefnogi.**

**26. Cais i arafu traffig o'r A497 o gyfeiriad Cricieth i Lanystumdwy** – derbyniwyd llythyr (ar 02.09.21) gan un o drigolion Llanystumdwy yn cyfeirio at y ffaith fod problem o draffig trwm yn creu perygl ar hyd y lon. Dywedwyd fod troi i mewn i'r pentref, yn peryglu bywyd yn rheolaidd gan fod gyrwyr tu ol y rhes traffig yn tynnu allan i oddiweddyd heb edrych os yw'r ceir o'u blaenau yn arafu i droi i mewn i'r pentref. **Penderfynwyd rhoi y mater ar ein rhaglen nesaf, gan hysbysu'r sawl wnaeth anfon llythyr, ag i ystyried casglu enwau i wneud deiseb i gefnogi'r cais, sef fod angen gwneud rhywbeth ar fyrder.**

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 07.10.2021 am 8:15 y.h.

Bydd angen trefnu dyddiad ar gyfer cynnal cyfarfod busnes/cyllid fis Hydref hefyd, y Clerc am drefnu.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**